

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**  
**RHONDDA CYNON TAF**  
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor,  
Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambwr y Cyngor):-

DYDD IAU, 19 MAWRTH, 2015 am 10.30am.

Cyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn: 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar 17 Mawrth 2015. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i [Cabinet@rctcbc.gov.uk](mailto:Cabinet@rctcbc.gov.uk)

**MATERION I'W TRAFOD**

**1 DATGANIAD BUDDIANT:**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gyngorwyr, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i aelodau i ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw;  
a
2. Lle bo aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. SEFYDLU HWB DIOGELU AML-ASiantaeth CWM TAF (MASH)**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi gwybod i Aelodau ynglŷn â'r datblygiadau ynghylch sefydlu Hwb Diogelu Aml-asiantaeth Cwm Taf.

**Tudalennau 1– 4**

**3. CYNLLUN COMISIYNU 'CYMORTH I'R BOBL' 2015-2018.**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi gwybod i Aelodau ynglŷn â thoriadau arfaethedig

Llywodraeth Cymru i Grant 'Cymorth i'r Bobl' y Cyngor ar gyfer 2015/16 a'r camau sy'n cael eu cymryd i reoli effaith y toriadau.

**Tudalennau 5 - 26**

**4. DEDDF TAI (CYMRU) 2014**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi gwybod i Aelodau ynglŷn ag elfennau allweddol Deddf Tai (Cymru) 2014 a'u goblygiadau i'r Cyngor.

**Tudalennau 27 - 42**

**5. ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2013-14**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol a chyflwyno Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cyngor 'Cymunedau Cadarn - Parchu Unigolion' ar gyfer 2013/14 i Aelodau.

**Tudalennau 43 - 96**

**6. RHAGLEN GYFALAF Y CYNGOR 2015/16 - 2017/18**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n ceisio sêl bendith y Cabinet i gynnig rhaglen gyfalaf 3 blynedd i'r Cyngor ar gyfer 2015/16 - 2017/18.

**Tudalennau 97- 124**

**7. ADRODDIAD O'R DIWEDDARAF - DYFODOL PWLL NOFIO'R DDRAENEN WEN**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet ynglŷn â'r opsiynau sydd ar gael o ran dyfodol Pwll Nofio'r Ddraenen Wen.

**Tudalennau 125 - 130**

**8. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw faterion brys fel y mae'r Cadeirydd yn gweld yn briodol.



**Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet**